Bannau Brycheiniog

# Dysgu yn yr awyr agored ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ar gyfer Addysg Gynradd, Uwchradd ac Addysg Bellach



# Dysgu yn yr Awyr Agored



Mae ein diwrnodau addysg yn gyfle i wella'r dibenion craidd a datblygu meysydd dysgu a phrofiad y Cwricwlwm i Gymru.

- Celfyddydau Mynegiannol
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Mae'r gweithgareddau hefyd yn cynnwys cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y Fframwaith Llythrennedd Rhifedd (LNF) a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol (DCF).

Cost: £6 y disgybl
Isafswm tâl: £75 y grŵp
10AM - 2.30PM

Cysylltwch â'n Tîm Addysg am fwy o wybodaeth ac i drefnu eich ymweliad:

educationemail@beacons-npa.gov.uk
07854 997 528 / 01874 620 463

## Ysgolion Llysgenhad y Parc Cenedlaethol

Mae gennym amrywiaeth o adnoddau Ysgol Gynradd i gefnogi athrawon i wreiddio dysgu yn yr awyr agored yn yr ysgol.

Helpwch eich disgyblion i ddod yn hyderus gan ddefnyddio tir eu hysgol, eu hardal leol a'u Parc Cenedlaethol. Dewch yn Ysgol Llysgennad y Parc Cenedlaethol heddiw!

**Sganiwch y Cod QR isod i ddysgu mwy am ein Rhaglen ysgolion Llysgennad:**

https://bannau.cymru/dysgu/ysgolion-llysgennad-y-parc-cenedlaethol/

# Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol

Libanus, LD3 8ER

Mae ein Canolfan Ymwelwyr ger Libanus yn cynnig golygfeydd panoramig draw i'r Bannau. Mae'r Ganolfan yn darparu mynediad hawdd i brofiad mynyddig a thiroedd helaeth, tra hefyd o fewn cyrraedd agos i gyfleusterau gan gynnwys ystafell ddosbarth, ardal chwarae awyr agored, caffi, toiledau a phod Changing Places.



# Parc Gwledig Craig-y-nos

Penycae, SA9 IGL

Mae Parc Gwledig Craig-y-Nos mewn lleoliad cysgodol ychydig oddi ar yr A465 yng Nghwm Tawe uchaf. Mae'r safle 40 erw hwn yn lle perffaith i archwilio gyda choedwigoedd, dolydd, afonydd ac ucheldiroedd i gyd o fewn cyrraedd hawdd i fannau addysgu dan do ac awyr agored.



# Geoparc y Fforest Fawr

Mae parc o fewn parc, Geoparc Fforest Fawr yn cwmpasu hanner gorllewinol y Parc Cenedlaethol. Yn Geoparc Byd-eang UNESCO, nid yw Fforest Fawr yn ymwneud â chreigiau a daeareg yn unig - mae ein geoparc yn dathlu hanes ac archaeoleg yr ardal, y bywyd naturiol a dynol o fewn ei ffiniau.




© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cynnwys data OS © Hawlfraint y Goron OS 2020.
© Brecon Beacons National Park Authority. Contains OS data © Crown copyright 2020.

# Cyrsiau: Dyddiau Darganfod



Camau Cynnydd 1-3 (Cynradd)

**Anifeiliaid Coetir a'u Cartrefi**
Pwy sy'n byw yma a beth sydd ei angen arnynt i oroesi? Bydd disgyblion yn ymchwilio i gynefinoedd i greaduriaid fyw a ffynnu.

**Celf Natur**
Taniwch eich synhwyrau gyda golygfeydd, synau ac arogleuon Y Bannau Brycheiniog. Mae'r sesiynau ymarferol a gweithredol hyn yn caniatáu i ddysgwyr archwilio a datblygu eu sgiliau creadigol a dychmygus. Mae gweithgareddau ar gael i bawb ac yn hyrwyddo mwy o gysylltiad â natur a lles.

**Mythau a Chwedlau**
Mae'r diwrnod rhyngweithiol hwn yn caniatáu i ddysgwyr ddarganfod un o fythau a chwedlau Bannau Brycheiniog. Ar ôl gwrando ar 'Arglwyddes y Llyn' bydd dysgwyr yn ailadrodd ac yn dilyniannu'r stori gan ddefnyddio gwrthrychau naturiol a'u creadigrwydd. Ynghyd â thaith gerdded gyffrous i'r dirwedd ddramatig, hynafol, bydd dysgwyr yn cael eu hysbrydoli i greu eu myth neu chwedl eu hunain.

**Diwrnod Pobl Oes yr Haearn (Canolfan Ymwelwyr yn unig)**
Diwrnod dysgu ymarferol y tu mewn a'r tu allan. Gydag amrywiaeth o adnoddau bydd disgyblion yn dysgu am y ffordd Geltaidd o fyw gan ddefnyddio arteffactau, clai, malu india corn, bathodynnau a mwy. Bydd disgyblion yn cerdded i fryngaer i ddysgu am hanes yr ardal hon.

**Taith Gerdded Darganfod**
Dewch i ddarganfod un o dri Pharc Cenedlaethol Cymru a darganfod pam fod Bannau Brycheiniog yn dirwedd warchodedig. Ar y daith gerdded wedi ei thywys hon byddwch yn profi ein hardal eithriadol o hardd yn uniongyrchol. Mae'r daith gerdded hon yn cynnwys tirwedd amrywiol, safleoedd hanesyddol a golygfeydd panoramig. Mae cyfle ar hyd y llwybr i drafod a phrofi'r heriau wrth reoli'r ardal warchodedig hon er budd bywyd gwyllt a phobl.

**Map a Chwmpawd**
Trwy astudio'n ofalus o fapiau lleol ac OS, bydd dysgwyr yn cael eu cyflwyno i sgiliau map a chwmpawd sylfaenol. Datblygir meddwl gofodol sy'n caniatáu i ddysgwyr ddelweddu lleoliadau trwy ddeall y symbolau sy'n cynrychioli'r byd ffisegol. Yna bydd disgyblion yn gweithredu'r sgiliau mordwyo hyn yn yr ardal gyfagos.



**Cyfeiriannu (Craig-y-nos yn unig)**
Datblygu sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau cydweithredol wrth gyfeirio o amgylch ein Parc Gwledig hardd. Bydd disgyblion yn dysgu sut i gyfeirio map gan ddefnyddio nodweddion y dirwedd ac yn defnyddio allwedd i ddeall lliwiau map a symbolau cyffredin. Mae hwn yn weithgaredd awyr agored cyffrous sy'n ymarfer corff a meddwl.

**Ymchwilio i afonydd (Craig-y-nos yn unig)**
Bydd dysgwyr yn ymweld â dalgylch uchaf trawiadol Dyffryn Tawe. Gan ddefnyddio offer gwaith maes bydd dysgwyr yn mesur ac yn casglu data o gyrsiau uchaf a chanol Afon Tawe. Byddant yn cael cyfle i gymharu sut mae'r afon yn newid.

Gyda'r bygythiad cynyddol o newid yn yr hinsawdd, bydd dysgwyr yn arsylwi sut rydym yn rheoli llifogydd a chynyddu bioamrywiaeth trwy greu dulliau rheoli afonydd naturiol.

Ar gael o fis Mawrth i fis Hydref.



**Ymchwilio i goed a chynefinoedd coetir**
Trwy ymchwilio a gemau rhyngweithiol, bydd dysgwyr yn archwilio coetiroedd brodorol. Gan weithio ar y cyd, bydd dysgwyr yn defnyddio siartiau, offer a sgiliau rhifedd ID i wneud gwaith maes, mesur uchder, oedran a storfa garbon o goed.

**Adeiladu Lloches**
Heriwch eich dosbarth i weithio ar y cyd i ddefnyddio eu sgiliau datrys problemau a meddwl beirniadol i adeiladu lloches. Bydd dysgwyr yn cael yr adnoddau i greu eu llochesi gan ddefnyddio amrywiaeth o glymau sy'n hyrwyddo sgiliau modur gros a manwl.

**Helfa Drychfilod a Dipio Pyllau**
Byddwch yn egnïol ac yn ymarferol yn yr awyr iach a darganfod beth sy'n byw yng nghynefinoedd cyferbyniol ein Parc Cenedlaethol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o sgiliau gwaith maes, bydd dysgwyr yn nodi, cofnodi, dosbarthu a chymharu rhywogaethau. Rydym hefyd yn edrych ar gadwyni bwyd ac yn defnyddio data i ddeall mwy am y creaduriaid sy'n ymgartrefu yn y Parc Cenedlaethol.

**Geocaching**
Gyda'r gweithgaredd hwn, cyflwynir y dysgwyr i Bannau Brycheiniog, fforwyr Cymreig nodedig a sgiliau llywio. Yn ystod y gweithgaredd atyniadol hwn, bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau map a thechnoleg ddigidol (gan ddefnyddio unedau GPS). Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o leoliad, cyfeiriad a phellter i weithio gyda'i gilydd i ddod o hyd i gelciau cudd.

# Ymweliadau Ysgolion Uwchradd



**Astudiaeth Gwaith Maes (Craig-y-nos yn unig)**
Bydd dysgwyr yn gwneud gwaith maes ar gyrsiau uchaf ac isaf Afon Tawe. Bydd dysgwyr yn darganfod sut mae'r Parc Cenedlaethol yn defnyddio dulliau naturiol i leihau effeithiau llifogydd a newid yn yr hinsawdd. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i gasglu a dadansoddi'r data o orsafoedd rhybuddio llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r data hanfodol hwn yn llywio ac yn gwella rheolaeth llifogydd yn yr ardal. Bydd dysgwyr yn dysgu mwy am ein hymgyrch #CaruEinAfonydd.

**Diwrnodau pontio ac adeiladu tîm**
Cefnogi gwydnwch, hyder a lles, mae gweithgareddau awyr agored yn cynnwys adeiladu llochesi, cyfeiriannu, geogelcio, ymwybyddiaeth ofalgar, celf a gweithgareddau synhwyraidd. Mae'r dyddiau hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau bywyd tra hefyd yn meithrin gwell dealltwriaeth o bobl, lleoedd, natur, dŵr a hinsawdd ein Parc Cenedlaethol.

**Rheoli Ymwelwyr yn y Parc Cenedlaethol**
Ymchwilio i bwysigrwydd a heriau ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol. Bydd dysgwyr yn archwilio effeithiau ymwelwyr â'r Parc Cenedlaethol, gan ymgymryd ag amrywiaeth o waith maes i gasglu data gan gynnwys astudiaeth erydiad llwybr troed. Trafodwch sut mae ffermio, yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol, wedi siapio'r dirwedd. Darganfyddwch sut mae'r Parc Cenedlaethol yn gweithio tuag at adfer natur a thargedau Sero Net ar gyfer 2035.

**Gwaith Maes Astudiaeth Rhewlifiant**
Ymunwch â'n Swyddog Datblygu Geoparc ym Mharc Gwledig Craig-y-nos ac yng Nghwm Tawe uchaf. O dan arweiniad arbenigol, mae dysgwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith maes i ddeall sut mae prosesau rhewlifol wedi siapio'r tir.



# Cymorth i Ysgolion



## Teithiau cerdded darganfod ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Gall ein Tîm Addysg gefnogi teithiau cerdded dan arweiniad mewn lleoliadau addas yn y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ardal y Rhaeadrau a'r Mynyddoedd Du. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.



# Canolfan Breswyl ar gyfer Dysgu Awyr Agored

YHA Brecon Beacons, LD3 7YS

Yn swatio ger cronfa ddŵr Tal-y-bont ar Wysg gyda mynediad uniongyrchol i Lwybr Taf, llwybrau ceffylau, llwybrau troed a bryniau, mae Danywenallt yn ffermdy wedi'i drawsnewid sy'n darparu sylfaen wych ar gyfer ein cyrsiau preswyl o ansawdd uchel.

**Gweithgareddau**

- Croeso i'r Parc Cenedlaethol
- Gemau adeiladu tîm
- Her tîm goroesi
- Taith gerdded mynydd yr ucheldir
- Taith gerdded synhwyraidd anhygoel
- Geocaching
- Map a chwmpawd
- Llwybr y gamlas a'r afon

Darperir bwyd a gofal gan yr YHA.
Aroswch am ddwy noson neu fwy.

**Cost**

Mae'r gweithgareddau'n costio £12.50 / £15.00 am bob dydd

**Cysylltu â ni**

Cysylltwch â'n Tîm Addysg am fwy o wybodaeth ac i drefnu eich ymweliad:

educationemail@beacons-npa.gov.uk
07854 997 528 / 01874 620 463



# Gwybodaeth bellach



Cyllid Trafnidiaeth

Mae gennym gyllid ar gael i helpu i gefnogi ysgolion yng Nghymru gyda'u costau trafnidiaeth ar gyfer ymweliad ag un o'n Canolfannau.

Mae cyllid ar gael ar sail y cyntaf i'r felin, ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unig ac fe'i cyfrifir ar sail canran prydau ysgol am ddim yr ysgol.



I gael rhagor o wybodaeth am ein canolfannau dysgu, adnoddau addysg a'n rhaglen gymorth, cysylltwch â'n Tîm Addysg. Rydym yn hapus i drafod gofynion dysgu gydag ysgolion i sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch ymweliad.


educationemail@beacons-npa.gov.uk
07854 997 528


https://bannau.wales/learning/

Dyfodol

# Y Bannau

The Future




## Pum cenhadaeth rhyng-gysylltiedig

### Hinsawdd

Cyrraedd sero net o ran allyriadau nwyon ty gwydr ar draws Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog erbyn 2035

### Dwr

Adnoddau ac amgylcheddau dwr glân, diogel, gwydn a digonol erbyn 2030.

### Natur

rc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn natur-bositif erbyn 2030.

### Pobl

Byw, gweithio ac ymweld yn ddiogel, yn deg ac yn gynaliadwy.

### Lle

Lleoedd hardd, ffyniannus a chynaliadwy, sy'n cael eu dathlu am eu treftadaeth naturiol a diwylliannol, yn awr ac am byth.

APob delwedd drwy garedigrwydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
This document is also available in English
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg